



## **GEM UK: Adroddiad Cymru 2013**

Jonathan Levie, Mark Hart a Karen Bonner

Prosiect rhyngwladol yw'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) a oedd yn cynnwys 70 economi ym 2013. Ei nod yw darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuriaidd y gwledydd. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddi data GEM yn ddangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol drwy'r byd. Maint y sampl yng Nghymru oedd 2,986 o oedolion dros 16 oed yn 2013 yn sgîl hybu'r sampl cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

### **Prif Ganfyddiadau**

- Y gyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2013 oedd 5.4 y cant. Roedd hyn yn sylweddol is na'r amcangyfrif o 7.0 y cant yn 2012 a hefyd yn sylweddol is na'r amcangyfrifon yn 2013, sef 7.5 y cant ar gyfer Lloegr a 7.3 y cant ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw.
- Y gyfradd TEA oherwydd angen yng Nghymru yn 2013 oedd 1.3 y cant, sef yr un fath yn union â'r gyfradd yn 2012, a'r gyfradd TEA oherwydd cyfle oedd 4.0 y cant, nad yw'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif 5.3 y cant yn 2012.
- Llithrodd cyfradd TEA menywod yn ôl i 4.2 y cant o'r lefel uchaf a gofnodwyd, sef 6.1 y cant yn 2011. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i amcangyfrif y Deyrnas Unedig, sef 5.8 y cant. Serch hynny, cododd y gymhareb TEA rhwng dynion a menywod yn sylweddol o 39 y cant i 65 y cant yn 2013 (66% yn y Deyrnas Unedig, a oedd wedi codi o 57%).
- Gostyngodd y gyfradd TEA i oedolion ifanc 18 -29 oed o 8.6 y cant yn 2012 i 4.9 y cant y 2013 (Y Deyrnas Unedig: 6.4%, i lawr o 9.4% yn 2012), a'r gyfradd TEA ymhlith rhai 30 - 64 oed oedd 5.4 y cant (6.5% yn 2012), sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, sef 7.5 y cant (9.9% yn 2012) a'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr (7.7%).
- Nid yw'r agweddau at entrepreneuriaeth wedi newid fawr ddim yng Nghymru yn 2013. Gwelwyd mymryn o gynnydd yn y canfyddiad ynghylch cyfle, gan godi o 22.6 y cant o'r boblogaeth an-entrepreneuriaidd o oedran gweithio i 25.1 y cant. Gwelwyd mymryn o gynnydd yn y cyfanfyddiad ynghylch cyfle hefyd ledled y Deyrnas Unedig o 30.5 y cant i 33.2 y cant.

- Gan ddilyn trywydd y dirywiad a welwyd yn 2012, bu gostyngiad yng nghanran yr unigolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru a oedd yn gweld cyfleoedd ond bod ofn dechrau busnes arnynt, rhag ofn iddo fethu, o 43.8 y cant i 39.2 y cant (y Deyrnas Unedig: 43.3% i 41.4%) ond nid oedd y newidiadau hyn yn ystadegol arwyddocaol.
- Gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr oedolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes yn ystod y tair blynedd nesaf i 3.9 y cant (8.8% yn 2012). Gwelwyd gostyngiad sylweddol hefyd ledled y Deyrnas Unedig yn y nifer sy'n bwriadu cychwyn busnes o 11.3 y cant i 5.4 y cant

## Y Cefndir

Seilir y Monitor Enrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) ar y canlynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n fawr ar gael sector entrepreneuriaeth deinamig. Yn ail, mae gallu entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp yn y gymdeithas sydd â'r gallu a'r cymhelliant i gychwyn busnes, ac mae gofyn i'r gymdeithas arddel agwedd gadarnhaol at entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf-uchel yn cyfrannu'n allweddol at greu cyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar gael mentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Noddodd Llywodraeth Cymru elfen Cymru prosiect ymchwil GEM UK yng Nghymru. Mae ysgogi entrepreneuriaeth yn dal yn her bwysig i Gymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi gafeael yn yr awenau i sicrhau ei bod yn bwrw gwreiddiau yn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r unfed flwyddyn ar ddeg i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn GEM. O blith y 2,842,000 a atebodd arolygon GEM UK yn y cyfnod 2002-2013, roedd 47,000 o'r ymatebwyr o Gymru. Yng Nghymru erbyn hyn y mae'r gronfa ddata fwyaf am agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd o blith unrhyw un o ranbarthau'r Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddadansoddi'r tueddiadau ar gyfer isboblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl ifanc neu bobl hŷn, o'u cymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Defnyddir canlyniadau dadansoddi data GEM yn ddangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol drwy'r byd. Maent hefyd yn

golygu bod modd cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig ac â gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Drwyddi draw, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymdrech ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig ein bod ni'n deall yn well y pethau hynny sy'n dylanwadu ar entrepreneuriaeth cyfnod cynnar, oherwydd, mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o entrepreneuriaeth a ffyniant economaidd cyffredinol, yn enwedig mewn economïau sy'n cael eu sbarduno gan arloesi, megis Cymru.

## **Sut y bydd GEM yn mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd**

Bydd GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (a elwir yn TEA) drwy ddefnyddio'r dull a ganlyn:

- Cynhelir arolwg dros y ffôn o hap sampl o'r boblogaeth sy'n oedolion rhwng mis Mai a mis Medi.
- Mynegai'r TEA yw swm yr ymatebwyr hynny sy'n cael eu dosbarthu'n gyw entrepreneuraidd<sup>1</sup> ac yn entrepreneuraid cwmnïau newydd<sup>2</sup>.

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw wedi'i seilio ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion yr unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau a sefydlir ganddynt. Yn yr ystyr hwnnw, mae'n ddull unigryw o fesur tuedd ddiwylliannol cenedl neu ranbarth i fod yn entrepreneuraidd ac mae'n ddull y gellir ei ddefnyddio i gymharu gwledydd â'i gilydd.

Un ffordd o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw i ba raddau y mae'r gweithgarwch wedi'i seilio ar angen (hy. nad oes dewis gwell ar gyfer gwaith ar gael) neu ar gyfle (lle y gall entrepreneuraid fod yn manteisio ar y

---

<sup>1</sup> Y cyfnod cynllunio gweithredol pan fo'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis blaenorol i'w helpu i gychwyn busnes newydd, busnes newydd y bydd ef/hi'n rhannol berchen arno o leiaf, ac nad yw wedi talu cyflogau nac incwm arall i'r perchnogion yn ystod y 3 mis diwethaf.

<sup>2</sup> Diffinnir yr ail gyfnod fel hyn: rhwng 4 a 42 mis ar ôl i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm ar gyfer y perchnogion. Entrepreneuraid sydd yn rhannol berchen ar fusnes newydd o leiaf ac yn ei reoli ac sydd wedi bod yn talu rhyw ffurf ar incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 mis, ond nid am fwy na 42 mis, ac fe elwir y rhain yn entrepreneuraid cwmnïau newydd.

potensial i greu marchnad newydd). Er 2011, mae'r gweithgarwch entrepreneuriaid ymhlith gweithwyr wedi cael ei fesur. Gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar sut y mae gweithgarwch entrepreneuriaid yn cael ei fynegi o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle bydd gan entrepreneuriaid lai o fynediad o lawer at nawdd cymdeithasol na gweithwyr cyflog, er enghraifft, bydd gweithgarwch entrepreneuriaid ymhlith gweithwyr yn tueddu i ffurfio cyfran uwch o'r gweithgarwch entrepreneuriaid yn gyffredinol<sup>3</sup>.

Yn ogystal â holi am weithgarwch, bydd arolwg GEM hefyd yn gofyn i bob ymatebydd am ei agweddau at weithgarwch entrepreneuriaid, a bydd yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau.

Esbonnir y fethodoleg, meintiau'r sampl a'r systemau pwysoli a ddefnyddiwyd yn arolwg poblogaeth oedolion GEM UK 2013 yn fwy manwl yn adroddiad GEM UK 2013 ([www.gemconsortium.org](http://www.gemconsortium.org)). Cyflwynwyd newid pwysig i ddyluniad y sampl yn 2010 pan ddetholwyd 10 y cant o'r ymatebwyr ym mhob un o'r Rhanbarthau Swyddfeydd Llywodraethol (GOR) ar hap o blith aelwydydd yr oedd ganddynt ffonau symudol ond nad oedd ganddynt ffonau daearol sefydlog. Yn 2013, cynyddwyd hyn o 16 y cant i 20 y cant, yn unol a'r amcangyfrifon diweddar yng nghyfran yr aelwydydd hynny yn y Deyrnas nad oes ond ganddynt ffôn symudol.

Mae'r adroddiad isod yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau, a'r prif themâu sy'n codi o arolwg GEM yn 2013 ac o ddadansoddi'r deuddeg mlynedd o ddata GEM (2002-13).

## **Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuriaid Cyfnod Cynnar (Mynegai'r TEA)**

Y gyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2013 oedd 5.4 y cant. Roedd hyn yn sylweddol is na'r amcangyfrif o 7.0 y cant yn 2012 a hefyd yn sylweddol is na'r amcangyfrif o 7.5 y cant ar gyfer Lloegr a 7.3 y cant ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Roedd y gyfradd TEA yn Lloegr yn sylweddol uwch


---

<sup>3</sup> Bosma, N. e tal. (2013) Adroddiad Arbennig y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang am weithgarwch entrepreneuriaid cyflogaion. Llundain: Y Gymdeithas Ymchwil Entrepreneuriaid Fyd-eang

na'r cyfraddau ar gyfer yr holl wledydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac eithrio'r Alban yn 2013 (Ffigur 1).


Drwyddi draw, mae'r gyfradd TEA yng Nghymru, sef 5.4 y cant yn cyfateb i oddeutu un ym mhob pedwar ar ddeg o oedolion 18-64 oed neu oddeutu 92,000 o unigolion.

Roedd 65 y cant o'r rhain yng nghyfnod cynnar iawn cychwyn busnes (cyw entrepreneuriaid 3.5%) a'r gweddill â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed (2.0%).




**Ffigur 1: Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenedloedd y Deyrnas Unedig 2013** (Ffynhonnell: GEM APS)

Gwelwyd cynnydd ar unwaith yng nghyfradd y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru, ac yn y Deyrnas Unedig, ar ôl y dirwasgiad, ond mae'n ymddangos ei fod yn llithro yn ôl i'r cyfartaledd tymor hir (Ffigur 2a). Yn 2013, gostyngodd cyfradd gweithgarwch cyw entrepreneuriaid io 3.9 y cant i 3.5 y cant yng Nghymru a gwelwyd gostyngiad sylweddol hefyd yng nghyfraddau'r cyw entrepreneuriaid a'r entrepreneuriaid newydd yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw.




**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (2002-13)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae Ffigur 2b yn awgrymu bod y gostyngiad yn 2012 yn lefel y gweithgarwch entrepreneuriaidd cyfnod cynnar yng Nghymru o bosibl wedi'i grynhoi yn y gorllewin a'r cymoedd yn hytrach nag yn y dwyrain, er nad oes dim o'r gwahaniaethau hyn sy'n ystadegol arwyddocaol. Anomali o bosibl yw'r brigo ymddangosiadol yn y gweithgarwch entrepreneuriaidd yn nwyrain Cymru yn 2009 oherwydd bod maint y sampl yn fach.



**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cyfnod Cynnar yn nwyrain Cymru, yn y gorllewin a'r cymoedd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (2002-13)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Roedd y TEA oherwydd angen yn 2013 yn 1.3 y cant, yr un fath yn union â'r gyfradd yn 2012. Roedd y TEA oherwydd cyfle yn 4.0 y cant. Nid yw hynny'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif yn 2012, sef 5.3 y cant. Roedd y TEA oherwydd angen fel cyfran o'r holl TEA yn 25 y cant, sy'n uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol a hefyd yn uwch nag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig (Ffigur 3).




**Ffigur 3: Entrepreneuriaeth oherwydd Cyfle ac Angen yng ngwledydd y Deyrnas Unedig yn 2013.** (Ffynhonnell: GEM APS 2013)

## Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?

**Rhyw:** Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Deyrnas Unedig yn 2013, roedd y gyfradd TEA yn sylweddol uwch ymhlith dynion nag ymhlith menywod. At hynny, roedd cyfradd TEA menywod yn Lloegr yn sylweddol uwch na chyfradd TEA menywod yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gwahaniaethau amlwg rhwng y gymhareb gweithgarwch entrepreneuriaid cyfnod cynnar dynion i fenywod yn y pedair gwlad. Cododd y gymhareb yng Nghymru o 39 y cant i 65 y cant yn 2013. Er bod y cymarebau blynyddol yn debygol o amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae'r cymarebau cyfartalog tymor hir dros y cyfnod 2002 i 2013 yn awgrymu bod cymhareb Cymru sef 54 y cant, yn debyg i'r hyn


a welir yn Lloegr (49%) a'r Alban (51%) ond ei bod yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon (35%).



**Ffigur 4: Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenedloedd y Deyrnas Unedig 2013.** (Ffynhonnell: GEM APS 2013)

Llithrodd cyfradd TEA menywod yng Nghymru o'r ganran uchaf erioed, 6.1 y cant yn 2011 i'w chyfartaledd tymor hir, sef 4.0 y cant yn 2012, a chynyddodd fymryn i 4.2 y cant yn 2013. Gostyngodd cyfradd TEA dynion Cymru'n sylweddol o 10.1 y cant i 6.5 y cant. Gallwn weld yn Ffigur 5 bod cyfraddau TEA menywod yng Nghymru ar y cyfan yn cyfateb i'r duedd yn y Deyrnas Unedig er eu bod yn fwy cyfnewidiol o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod maint y sampl yn gymharol fach. Y duedd tymor canol yw bod y gyfradd yn cynyddu.







**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, 2002-13.** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Oedran:** Fel y dengys Ffigur 6, ymhlith unigolion rhwng 35 a 44 oed y gwelir y gyfradd uchaf o weithgarwch entrepreneuriaidd cyfnod cynnar yn y Deyrnas Unedig, a hynny ym mhob un o'r gwledydd ac eithrio Gogledd Iwerddon. Ers sawl blwyddyn, mae dosbarthiad y gyfradd TEA yn ôl oedran wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau yng Nghymru ac yn 2013, nodir bod y cyfraddau ar gyfer pawb 18-24 oed a 25-34 oed ill dwy o fewn un pwynt canran i'r gyfradd ar gyfer pobl 35-44 oed.

A dweud y gwir, wrth edrych ar y duedd ar gyfer pobl 18-24 oed yng Nghymru (Ffigur 7), mae wedi bod yn amlwg ers y dirwasgiad bod cyfradd gweithgarwch entrepreneuriaidd cyfnod cynnar y grŵp oedran hwn wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, a'i bod wedi dychwelyd wedyn at lefelau'r Deyrnas Unedig yn 2013. Efallai fod yr hinsawdd economaidd lem yn ystod y dirwasgiad wedi ysgogi cynnydd yn y cyfraddau gweithgarwch entrepreneuriaidd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, gyda'r gyfradd i bob golwg yn dychwelyd at y cyfartaledd tymor hir, sef 5 y cant yn 2013.




**Ffigur 6: Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cyfnod Cynnar (TEA) yng Nghenedloedd y Deyrnas Unedig 2013 (Ffynhonnell: GEM APS 2013)**




**Ffigur 7: Y duedd o ran Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuriaidd cyfnod cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, 2002-2013. (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2013)**

Dadansoddiad a allai fod yn fwy buddiol fyddai asesu sut mae cyfraddau TEA wedi newid ymhlith y grŵp oedran 18 i 29 (lle mae toriad naturiol i bob golwg yn nata gweithgarwch UK GEM) a chymharu'r rhain â'r grŵp oedran 30 i 64. Mae ffigurau 8 a 9 yn dangos bod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc yng Nghymru wedi bod yn gymharol uchel er 2008, ac yn uwch nag ar gyfer pobl 30-64 oed, ond ei bod wedi

gostwng yn 2013 i gyfateb â'r gyfradd yng Ngogledd Iwerddon lle mae'r gyfradd isaf, sef 4.9 y cant. Yn groes i hynny, mae cyfraddau TEA ymhlith pobl 30 i 64 oed yng Nghymru wedi bod yn gyson debyg i'r cyfraddau yng Ngogledd Iwerddon, ac yn 2013, roedd y ddwy'n sylweddol is na'r cyfraddau TEA yn Lloegr ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae'n werth sylwi bod y gyfradd TEA ar gyfer pobl 30-64 oed yn 2013 yn uwch nag ar gyfer pobl 18-29 oed am y tro cyntaf er 2007.




**Ffigur 8: Tuedd o ran Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenedloedd y Deyrnas Unedig ymhlith pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2013. (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2012)**



**Ffigur 9: Tuedd o ran Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenedloedd y Deyrnas Unedig ymhlith pobl 30 i 64 oed, 2002 i 2013. (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2013)**

**Addysg:** Lefel gyfartalog cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuriaidd cyfnod cynnar i raddedigion yn y Deyrnas Unedig, i lawr o 12.6 y cant yn 2012 (Ffigur 10) ac nid oedd hyn yn sylweddol uwch nag ar gyfer pobl heb radd (5.5%, nad yw'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif 7.9 y cant yn 2012). Roedd hefyd yn sylweddol uwch na'r gyfradd TEA ar gyfer graddedigion sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd (7.4%). Roedd cyfradd TEA graddedigion Cymru'n is nag yn y flwyddyn flaenorol (8.9%) ac yn arwyddocaol wahanol o fymryn i'r gyfradd TEA ar gyfer pobl heb radd yng Nghymru (4.4%, sy'n is, nid nid yn arwyddocaol felly o'i chymharu â'r 6.0% yn 2012). Yn yr un modd, roedd cyfraddau TEA graddedigion yn sylweddol uwch na chyfraddau TEA pobl heb radd yn Lloegr ac yn yr Aban.




**Ffigur 10: Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cyfnod Cynnar yng Nghenedloedd y Deyrnas Unedig yn ôl Statws Graddedig, 2013.** (Ffynhonnell: GEM APS 2013)

## Agweddau a Bwriadau Entrepreneuriaidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agwedd sy'n datgelu'r potensial entrepreneuriaidd mewn gwlad/rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys adnabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynedd flaenorol, gweld cyfleoedd da i gychwyn busnes, hunan-gred bod gan rywun y sgiliau perthnasol i gychwyn busnes ac ofn methu'n atal pobl rhag cychwyn busnes.

Mae'n well trin data agweddol GEM ar lefel grŵp yn hytrach nag ar lefel unigolion, oherwydd bydd unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid o bosibl yn teimlo rheidrwydd i roi atebion cadarnhaol yn yr Arolwg o'r Boblogaeth sy'n Oedolion (APS). Felly, fel yn y tair blynedd diwethaf, dim ond ar gyfer y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt eisoes yn entrepreneuriaid y byddwn ni'n adrodd am y data agweddol.


Yng Nghymru, mae un o bob pedwar (24.6%) unigolyn yn dweud eu bod yn adnabod entrepreneur. Mae hynny yr un fath ag yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw (Ffigur 11), a'r un fath fwy neu lai ag mewn blynyddoedd blaenorol. Yng Nghymru mae traean (35.5%) o'r rheini nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes - unwaith eto, mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd drwy'r Deyrnas Unedig, sef 37.0 y cant.



**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuriaidd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (2013).** (Ffynhonnell: GEM APS 2013)


Gostyngodd cyfran y boblogaeth a oedd yn gweld cyfleoedd da i gychwyn busnes ond yn dweud y byddai ofn methu'n eu hatal rhag gwneud hynny yn 2013 o 43.8 y cant i 39.2 y cant, sy'n debyg i'r hyn a welwyd yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw, lle y gostyngodd y gyfran o 43.3 y cant i 41.4 y cant, er nad yw'r un o'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol. Mae Ffigur 12 yn dangos i ofn methu yng Nghymru gynyddu fwy nag yn y gwledydd eraill ers dechrau'r dirwasgiad yn 2007, ond mae'r

gyfradd erbyn hyn wedi gostwng i gyfradd sy'n debyg i'r hyn a welir yn Lloegr ac yn yr Alban.




**Ffigur 12: Ofn Methu ymhlith y rheini sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd y Deyrnas Unedig, 2002-13.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn arolwg 2013, dim ond 25.1 y cant o'r boblogaeth an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru a oedd yn cytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis dilynol, o'i chymharu â 33.2 y cant o boblogaeth an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yn y Deyrnas Unedig. Nid yw hyn yn sylweddol uwch nag amcangyfrif 2012. Serch hynny, mae bwch sylweddol o hyd o ran canfyddiad o'r cyfleoedd sydd ar gael o'i gymharu â'r hyn a welir drwy'r Deyrnas Unedig ac yn benodol o'i gymharu â Lloegr (Ffigur 13).



**Ffigur 13: Canfyddiadau o Gyfleoedd i Gychwyn Busnes yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, 2002-13.** (Ffynhonnell: GEM APS)


Ac edrych tua'r dyfodol, gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr oedolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes yn ystod y tair blynedd nesaf i 3.9 y cant o 8.8% yn 2012 (Ffigur 14). Gwelwyd gostyngiad yn amcangyfrif y Deyrnas Unedig hefyd o 11.3 y cant i 5.4 y cant. Mae'r gostyngiad hwn o ran disgwyliadau'n gyson â'r gostyngiad cyffredinol mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yn 2013. Serch hynny, mae'r gostyngiad yn y gyfradd ofn methu a'r gwelliant yn y ffordd mae pobl yn gweld cyfleoedd i gychwyn busnes yn awgrymu rhywfaint o optimistiaeth ymhlith y boblogaeth an-entrepreneuraidd.



**Ffigur 14: Disgwyliadau ar gyfer Cychwyn Busnesau yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig ymhlith y boblogaeth an-entrepreneuraidd, 2002-13.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2013, nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfran y dynion a chyfran y menywod an-entrepreneuraidd gweithredol yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn bwriadu cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf (Ffigur 15). Yn 2013, roedd 3.1 y cant o'r menywod hynny'n digwyl cychwyn busnes yn y 3 blynedd nesaf o'u cymharu â 4.7 o ddynion. Y gymhareb menywod i ddynion o ran bwriadu cychwyn busnes yn y dyfodol yng Nghymru oedd 67 y cant, a oedd wedi codi o 63 y cant yn 2012 ac yn uwch nag yr oedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, mae'r gyfradd sy'n bwriadu cychwyn busnes wedi gostwng yn sylweddol ym mhob un o'r gwledydd yn y flwyddyn ddiwethaf.





**Ffigur 15: Y cyfraddau sy'n Disgwyl Cychwyn Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng ngwledydd y Deyrnas Unedig, yn ôl Rhyw, 2013.** (Ffynhonnell: GEM APS 2013)

### Medru'r Gymraeg yn rhugl a Gweithgarwch Entrepreneuriaidd

Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn 2013 o ran cyfradd TEA y rheini yng Nghymru a oedd yn siarad ac yn ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl (3.6%), y rheini a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (6.3%) a'r rheini nad oedd ganddynt fawr o sgiliau Cymraeg neu ddim o gwbl (5.2%).

### Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Gweithgarwch Entrepreneuriaidd

Yn 2013, roedd 12.6 y cant o gyw entrepreneuriaid ac entrepreneuriaid newydd rhwng 18 a 24 a 30<sup>4</sup> y cant o entrepreneuriaid 25 i 30 oed wedi clywed am Syniadau Mawr Cymru<sup>5</sup>, o'u cymharu ag 16.1 y cant o bobl eraill 18 i 24 oed ac 11.5 y cant o bobl eraill 25 i 30 oed. Er nad oedd y gwahaniaethau ymhlith unigolion iau'n arwyddocaol, roeddent i bob golwg yn fwy tebygol o fod wedi clywed am Syniadau Mawr Cymru (15.9%) na'r rheini rhwng 25 a 30 oed (11.0%). Drwyddi draw, roedd 14.2 y cant o oedolion ifanc 18 i 30 oed wedi clywed am Syniadau Mawr Cymru, sy'n debyg i'r amcangyfrif yn 2012, sef 13.3 y cant.

<sup>4</sup> Y rheswm dros hyn yw bod nifer y cyw entrepreneuriaid a'r entrepreneuriaid newydd 25-30 yn fach iawn

<sup>5</sup> Gelwid hwn yn Adnoddau Dynamo gynt.

Yn 2010, cynhwyswyd cwestiwn mwy manwl ynglŷn ag a oedd pobl 18-30 wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau yn yr ysgol, yn y coleg neu'r brifysgol a oedd wedi gwneud iddynt ystyried cychwyn busnes neu fod yn fos arnynt eu hunain. Dywedodd hanner y rhain bron (46.7%) eu bod; 41.5 y cant oedd y ffigur hwn yn 2012 ac nid oedd y ganran honno, sef 39.4 y cant wedi newid rhyw lawer ers 2013. Yr amcangyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon oedd 39.5 y cant (i lawr o 53.9%), ac roedd hynny'n debyg i'r ganran yng Nghymru ac yn Lloegr (39.9%). Roedd y gyfran yn yr Alban (36.8 y cant) fymryn yn is.

Yn 2013, roedd cyfrannau tebyg iawn o bobl yn y pedair gwlad wedi clywed am yr Wythnos Fenter neu'r Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang: 9.0 y cant yng Nghymru, 7.5 y cant yn Lloegr, 7.0 y cant yn yr Alban a 7.9 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr amcangyfrifon hyn i gyd yn sylweddol is na'r rhai yn 2012.

## Sylwadau Cloi

Gwelwyd gostyngiad yn lefelau'r gweithgarwch entrepreneuraidd a'r bwriad o gychwyn busnes yng Nghymru yn 2013, ac roedd yr un peth yn wir yn y gwledydd eraill hefyd. Gwelwyd gostyngiad sylweddol nodedig yng nghyfraddau gweithgarwch pobl 18-29 oed. Er 2008, yng Nghymru yr gwelwyd y cyfraddau TEA uchaf ar gyfer y grŵp oedran hwn o blith y pedair gwlad, ond erbyn 2013, roedd Cymru wedi llithro i ymuno â Gogledd Iwerddon gyda'r gyfradd gweithgarwch isaf. Mae'r cyfraddau uchel o weithgarwch entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-29 oed yn ystod y dirwasgiad a'r dirywiad wedyn yn 2013 yn ddiddorol, yn enwedig gan fod cyfrannau'r bobl ifanc a oedd wedi clywed am Syniadau Mawr Cymru a/neu wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol a oedd wedi gwneud iddynt ystyried cychwyn busnes, wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers y flwyddyn flaenorol. Mae'n awgrymu y gall y dirywiad mewn gwirionedd fod yn ganlyniad i'r sefyllfa economaidd yn gwella, a'r canfyddiad bod mwy o swyddi ar gael ac felly nad oedd angen i bobl ifanc fynd yn hunan-gyflogedig oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith.

Yn 2013, roedd bwlch o hyd yng nghyfran yr unigolion an-entrepreneuraidd yng Nghymru a oedd yn meddwl bod cyfleoedd da iddynt gychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis dilynol, o'u cymharu â'r gyfran yn y Deyrnas Unedig. Serch hynny, mae cyfran y boblogaeth a oedd yn gweld cyfleoedd da ac yn dweud y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes wedi gostwng o'r 50% pan oedd yn ei hanterth yn 2011 i 39% yn 2013. Yng Nghymru, roedd ofn methu wedi cynyddu'n ddramatig yn ystod y dirwasgiad, ac mae'r llithro yn ôl yn 2013 hefyd yn awgrymu mwy o hyder a rhywfaint o optimistiaeth ymhlith y boblogaeth an-entrepreneuraidd, ffactorau a allai arwain at gynnydd yn y cyfraddau gweithgarwch yn y dyfodol.

## Ymwadiad

Seilir yr adroddiad hwn ar ddata a gasglwyd gan gonsortiw GEM a thîm GEM UK; cyfrifoldeb yr awdurdon yn llwyr yw'r dadansoddi a'r dehongli ar y data hyn.

### I gael gwybod rhagor am brosiect GEM UK, cysylltwch â

Karen Bonner  
Grŵp Economeg a Strategaeth  
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston  
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET  
Ebost: [k.bonner1@aston.ac.uk](mailto:k.bonner1@aston.ac.uk)



Aston Business School

Yr Athro Mark Hart  
Grŵp Economeg a Strategaeth  
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston  
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET  
Ebost: [mark.hart@aston.ac.uk](mailto:mark.hart@aston.ac.uk)



Aston Business School

Yr Athro Jonathan Levie  
Prifysgol Entrepreneuriaeth Hunter,  
Prifysgol Strathclyde,  
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,  
Glasgow, G1 1XH  
Ebost: [j.levie@strath.ac.uk](mailto:j.levie@strath.ac.uk)



**Testun Graff**

**Fig 1**

[Vertical]

% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion (18-64 oed)

Horizontal]

Lloegr G. Iwerddon Yr Alban Cymru Y DU

**Fig 2a**

[Top]

Cymru Cyfartaledd y DU

[Vertical]

% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion

**Fig 2b**

[Top]

Dwyrain Cymru Gorllewin Cymru Cymru Y DU

[Vertical]

% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion 18-64 oed

**Fig 3**

[Top]

Cyfle Angen Arall

[Vertical]

% o Gyw Berchnogion a Pherchnogion Busnesau Newydd

[Horizontal]

Lloegr Cymru Yr Alban G. Iwerddon Y DU

**Fig 4**

[top]

gwryw benyw

[Vertical]

% o Gyw Berchnogion a Pherchnogion Busnesau Newydd

[Horizontal]

Lloegr Cymru Yr Alban G. Iwerddon Y DU

**Fig 5**

[top]

Cymru            Cyfartaledd y DU

[vertical]

% o'r boblogaeth sy'n oedolion 18-64 oed

**Fig 6**

[Vertical]

% o'r Grŵp Oedran

Horizontal

Lloegr            Cymru            Yr Alban            G. Iwerddon    Y DU

**Fig 7**

[top]

Cymru            Cyfartaledd y DU

[Vertical]

Cyfradd TEA (% 18-24 oed)

**Fig 8**

[top]

Lloegr            Cymru            Yr Alban            GI

[Vertical]

Cyfradd TEA (% 18-29 oed)

**Fig 9**

[top]

Lloegr            Cymru            Yr Alban            GI

[Vertical]

Cyfradd TEA (% 30-64 oed)

**Fig 10**

[Top}

Graddedigion            Pobl Heb Radd

[Vertical]

% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion 18-64 oed

[Horizontal]

Lloegr            Cymru            Yr Alban            G. Iwerddon    Y DU

**Fig 11**

[Top]

Cymru            Y Deyrnas Unedig

[Vertical]

% y Boblogaeth An-Entrepreneuraidd

[Horizontal – left to rights]

Rwy'n nabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2flynedd diwethaf

Mae cyfleoedd da i gychwyn busnes lle rwy'n byw yn y 6 mis nesaf

Mae gen i'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gychwyn busnes

Byddai ofn methu'n fy atal rhag cychwyn busnes (i'r rheini sy'n cytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes

**Fig 12**

[Top]

Lloegr            Cymru            Yr Alban            GI

{Vertical}

% y rhai an-entrepreneuraidd 18-64 oed sy'n gweld cyfleoedd ond sydd ag ofn methu

**Fig 13**

[top]

Cymru            Cyfartaledd y Deyrnas Unedig

[vertical]

% o'r Boblogaeth Am-Entrepreneuraidd

**Fig 14**

{top}

Cymru            Cyfartaledd y DU

[vertical]

% o'r Boblogaeth An-Entrepreneuraidd